# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

04/03/2024

Dana Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference, Dydd Gwener, 15 Mawrth 2024 am 1.30 pm i drafod y materion canlynol:**

1. **Croeso**
2. **Gweddi**
3. **Datgan Diddordeb Personol / Diddordeb sy'n Rhagfarnu**
4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 9fed ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny. (Tudalennau 3 - 6)**
5. **Aelodaeth**
6. **Miss Nia Jones - Ysgol Gyfun Aberaeron (tua 15 munud)**
7. **Mrs Laurie Hughes - Rhan olaf Cyflwyno Addysg Cydberthnas a Rhywioldeb (tua 15 munud)**
8. **Cyflwyniad gan Rhianydd James a fydd yn cynnwys diweddariad cyfarfod CCYSAG'au Cymru â gynhaliwyd ar 5/3/24 a rhai pwyntiau gweithredu**
9. **Unrhyw Fusnes Arall**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda
**ddydd Iau, 09 Tachwedd 2023**

**YN BRESENNOL:**

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorydd Ifan Davies

Yn cynrychioli Undebau'r Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Mrs Anna Uruska (Yr Eglwys Gatholig), Y Parchedig Ddr John Tudno Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Yr Athro Densil Morgan (Undeb Bedyddwyr Cymru), Ms Noha Haroun (Cynrychiolydd ffydd Islam), Y Parchedig Mark Ansell (Yr Eglwys yng Nghymru)

Aelod Cyfetholedig: Mr Lyndon Lloyd MBE

Yn Cynrychioli'r Sector Cynradd: Mrs Non Jones McEvoy

Hefyd yn bresennol: Mrs Rhiannydd James - Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30pm - 11:10pm)

1 **Gweddi**
Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Parchedig Mark Ansell yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Keith Evans, Keith Henson, Ceris Jones ynghyd â Mrs Alwen Roberts a'r Athro Catrin Williams am na fedrant ddod i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Rhiannydd James, yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion a fyddai'n mynychu'r cyfarfod ar ran Mrs Mary Davies a oedd yn sâl ar hyn o bryd. Dymunodd pawb wellhad buan i Mrs Mary Davies. Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd John Roberts a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd a chydymdeimlwyd yn ddwys ag ef a'i deulu yn dilyn marwolaeth ei wyres.

3 **Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Gorffennaf 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 05 Gorffennaf 2023 yn amodol ar
(i) newid cyfenw'r Parch Aled Davies i Jones gan nodi ei fod yn cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac nid Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel y cofnodwyd;
(ii) newid enw Guto Gwynfor i Guto Prys ap Gwynfor gan nodi ei fod yn cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac nid Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel y cofnodwyd; a

(iii) chadarnhau y byddai Mrs Laurie Hughes, Athrawes Ymgynghorol Lles yn darparu rhagor o gyflwyniadau i'r Pwyllgor, gan fod dwy elfen ychwanegol i'w hystyried yn y wybodaeth a ddarparwyd.

**Materion Sy'n Codi**
Blaenraglen waith - Adroddwyd y byddai Miss Nia Wyn Jones yn dod i gyfarfod tymor yr haf gan y byddai llai o ffocws ar baratoi ar gyfer yr arholiadau.

4 **Aelodaeth**
Cafwyd diweddariad ar aelodaeth y pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd:-
(i) y byddai'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion yn cysylltu â Mrs Medi James i gadarnhau ei safbwynt mewn perthynas ag ymuno â'r Pwyllgor,
(ii) y byddai Mrs Manon Lewis, Pennaeth yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cael cais i ymuno â'r pwyllgor fel Aelod cyfetholedig,
(iii) y dylid cysylltu â Mr Colin Patridge gan ofyn iddo ddod i'r cyfarfod nesaf. Nid oedd yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion yn sicr a oedd gwahoddiad wedi'i anfon ato cyn y cyfarfod hwn.

5 **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
Croesawodd y Cadeirydd Mr Aled Rumble i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cafodd y wybodaeth ganlynol ei hamlinellu:-

- Asesiad
- Cynnydd
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Addysg Grefyddol yn y Ddeddf – datblygiadau arwyddocaol
- Map trywydd
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg – nodwyd bod Adran am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w gweld ar y wefan datblygiad proffesiynol. Hefyd, roedd ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu cynnal ac roedd adnoddau a grëwyd yn genedlaethol yn cael eu rhannu.

Yn dilyn trafodaeth ar gynnwys y cyflwyniad, CYTUNWYD nodi'r sefyllfa bresennol. Nodwyd hefyd y byddai'r disgyblion yn derbyn gwybodaeth am glybiau ar ôl ysgol yr oedd y gwahanol enwadau crefyddol yn eu darparu. Gallai'r clybiau hyn eu cynorthwyo nhw i fod yn ddinasyddion moesol.

6 **Diweddariad ar y niferoedd sy'n astudio Addysg Grefyddol**
Adroddwyd bod y niferoedd yr un fath â'r hyn a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Byddai'r ffigyrau swyddogol ar gael ar ôl mis Rhagfyr. Adroddwyd hefyd y gallai'r ffigurau ar gyfer y tymor newydd amrywio am fod gan y disgyblion hyd at hanner tymor mis Hydref i benderfynu a oeddent yn dymuno astudio'r pwnc.

Trafodwyd pryderon am nifer yr athrawon a fyddai'n astudio Addysg Grefyddol yn y dyfodol ac am y cyrsiau a fyddai ar gael. Dywedwyd y gallai Mrs Manon Lewis gynorthwyo pe byddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf a gallai hwyluso'r drafodaeth am hyn ar y cyd â'r Athro Catrin Williams. Adroddwyd bod sawl enghraifft eisoes o adnoddau a oedd yn destun arfer da a allai gynorthwyo athrawon, megis y Peace Assembly ac Adran Astudiaethau Crefyddol ac Athroniaeth Prifysgol Caerdydd ac ychwanegwyd y dylid ystyried barn anffyddwyr hefyd. Dwedwyd bod seminarau rheolaidd yn cael eu cynnal i gynorthwyo athrawon newydd â'r pwnc.

7 **Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru**

Darparwyd diweddariad ar gyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion fel a ganlyn:-

**1.Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru**

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd – diolchwyd i bob Awdurdod Lleol am eu gwaith

Templed adroddiad blynyddol – dim diweddariad

Rhannu data

**2. Adnoddau Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol** - Adnoddau - Hwb (llyw.cymru)

**3. Cynhadledd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru –** Haf 2024 – Gweithdai / Hyfforddiant – angen nodi blaenoriaethau

https://forms.office.com/e/u6HV5uNHY2

**4. Cymwysterau**

Cymwysterau Cymru – TGAU - Astudiaethau Crefyddol 2023 TGAU-Astudiaethau Crefyddol-qualification-outline-consultation-version-e.pdf (wjec.co.uk)

Cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cymwysterau Agored Cymru

**5. Cynhadledd y Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol (*EFTRE)***

**6. Diweddariadau eraill**

Adnoddau *EFTRE* – ar y wefan

ESTYN, Mudiad Addysg Grefyddol Cymru, Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol – dim

Trafodaethau Cyngor Addysg Grefyddol ynglŷn â TGAU, Lefel A ac Addysg Gychwynnol i Athrawon

Cytûn – cais i archwilio perthnasoedd a gwneud cais am aelodaeth ar Gyngor Rhyng-ffydd Cymru.

**7. Rhannu gwybodaeth** –

Cynnydd yn nifer y ceisiadau gan rieni i dynnu disgyblion allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg – byddai Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru yn paratoi canllawiau ar sut i gefnogi Awdurdodau Lleol.

Cafwyd un cais yn un o ysgolion cynradd Ceredigion y tymor hwn.

Wythnos Rhyng-ffydd – Tachwedd 12 – 19 2023

Wythnos Rhyng-ffydd 2020: Cysylltiad, dysgu a chydweithio yn ystod COVID - Adnoddau - Wythnos Rhyng-ffydd

Cyfarfod nesaf – dyddiad i'w gadarnhau

Dywedodd yr Aelodau y dylid darparu'r holl ddeunydd addysgu o'r cwricwlwm newydd yn ddwyieithog gan nad oedd hyn wedi digwydd gyda'r cwricwlwm blaenorol.

**8 Cais am eitemau/ Blaenraglen Waith**

Trafodwyd hyn yn flaenorol.

9 **Unrhyw fater arall**

Pwysleisiodd Mr Lyndon Lloyd MBE yr angen i ddiogelu Addysg Grefyddol fel pwnc, o ystyried y cynigion diweddar i adolygu'r Chweched Dosbarth yn y Sir. Roedd hefyd angen atgoffa pawb am fodolaeth y pwyllgor statudol hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a dymunodd gyfarchion y tymor i bawb.

10 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener 15 Mawrth am 1.30pm (gallai hyn newid pe byddai cyfarfod nesaf Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad hwn).

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023**

**Cadeirydd:__________________**

**Dyddiad:_________**